Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Penygroes
# Neuadd Goffa Penygroes
# Heol Waterloo
# Rhydaman
# SA14 7PJ

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2015**

**gan**


**Eifion R Morgan**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliada'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**©Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/02/2016**

## Cyd-destun

Mae'r Cylch Meithrin wedi ei leoli ym mhentref Penygroes. Un o'r hen gymunedau glofaol bychain yn Sir Gaerfyrddin yw Penygroes, rhyw bedair milltir i'r gorllewin o Rhydaman. Sefydlwyd y feithrinfa yn wreiddiol ym 1975 ac ar hyn o bryd yn cyfarfod yn y Neuadd Goffa.

Mae wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i dderbyn hyd at 17 o blant rhwng 2 a 4 oed.

Mae'r lleoliad yn cyfarfod ar bum bore'r wythnos a phedwar prynhawn (nid Gwener) am 39 wythnos y flwyddyn.

Ar hyn o bryd mae 32 o blant ar y gofrestr, ac mae 14 o'r rhain yn dair oed. Mae pob plentyn tair oed yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.
Nid oes un o'r garfan gyfredol wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu'n dod o gefndir ethnig.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu'r feithrinfa yn dod o'r pentref ac yn dod o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith.

Mae dau aelod o staff. Mae'r gan y ddau gymwysterau addas a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae'r arweinydd yn ei swydd ers 2011 ac yn athrawes gymwysedig.

Cafodd y lleoliad ei arolygu yn flaenorol gan AGGCC yn 2012 ac yn Rhagfyr 2009 gan Estyn.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
| --- | --- |
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Cylch Meithrin Penygroes yn dda oherwydd:

- mae bron yr holl blant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu hamser yn y lleoliad;
- mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu'r iaith Gymraeg o gymharu â'u man cychwyn;
- mae defnydd da iawn yn cael ei wneud o ganlyniadau asesu er mwyn nodi'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant;
- mae'r profiadau dysgu o ansawdd da ac yn cyfateb yn dda i oedran a gallu'r plant;
- mae ansawdd y berthynas rhwng ymarferwyr a phlant yn dda iawn ac yn seiliedig ar gyd-hoffter;
- mae trefniadau effeithiol ar waith i annog y plant i fwyta ac yfed yn iach;
- mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a chefnogol lle mae'r hol blant yn cael eu trin yn deg.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r lleoliad;
- mae'r ddau ymarferydd yn cyd-weithio'n bwrpasol er mwyn sicrhau bod y plant yn cyflawni'r safonau gorau posibl;
- mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau a gwendidau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu;
- mae gan y cynllun gweithredu dargedau clir ar gyfer gwella ac yn canolbwyntio'n dda ar wella cyflawniadau'r plant;
- mae'r lleoliad yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin;
- mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Parhau i ganolbwyntio ar ddatblygiad y plant yn yr iaith Gymraeg er mwyn cynnal y safonau uchel cyfredol.

A2 Pan fo’n briodol, rhoi gwybodaeth i rieni am yr hyn y gallant ei wneud i helpu eu plant i wella.

A3 Parhau i archwilio sut y gall darpariaeth addas y tu allan fod ar gael er mwyn ymestyn cyfleoedd dysgu’r plant.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn y lleoliad ac yn cyflawni'n dda. Mae'r plant hyn yn dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser ac yn dangos bodlonrwydd yn eu cyflawniadau. Mae bron pob plentyn yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac yn arddangos medrau meddwl da, fel wrth gysylltu gwahanol agweddau ar dywydd i dymhorau'r flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gallu gweithio'n annibynnol a gwneud dewisiadau. Mae'r plant sy'n symud i'r ysgol gynradd yn y dyfodol agos yn defnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda iawn yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd ac wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r holl blant yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau a storïau ac yn ymateb yn briodol. Maen nhw'n dilyn cyfarwyddiadau yn brydlon, fel wrth glirio offer a theganau a thacluso. Mae pob plentyn yn ymuno'n frwdfrydig mewn caneuon a rhigymau Cymraeg. Nodwedd dda a nodedig yw bod llawer o blant yn sgwrsio yn y Gymraeg yn ystod eu chwarae.

Mae llawer o blant yn trin offer ysgrifennu yn hyderus ac yn gywir. Mae'r plant mwy galluog yn ysgrifennu eu henwau yn gywir gan ffurfio llythrennau yn eithaf cyson. Mae plant eraill yn amlinellu llythrennau, fel y llythyren "c" ar daflenni wedi'u lamineiddio gan ddefnyddio pinnau ffelt.

Mae'r holl blant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac mae'r mwyafrif, er enghraifft, yn gallu dod o hyd y llythyren "c" o fewn testun y storïau. Mae'r plant yn mwynhau storïau ac mae gan lawer o blant gof da o storïau maen nhw wedi eu clywed o'r blaen.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfrif hyd at 10 ac yn ôl i sero. Mae llawer yn rhifo'n annibynnol i 10 ac mae gan y rhan fwyaf eirfa fathemategol sy'n datblygu, fel grwpio gwrthrychau i gategorïau mawr a bach. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn adnabod ac yn enwi siapiau dau ddimensiwn sylfaenol gan gynnwys cylchoedd, trionglau a sgwariau. Mae'r plant yn defnyddio arian yn eu swyddfa bost ac mae llawer yn gwybod beth yw pwrpas arian. Mae'r canu o ganeuon a rhigymau Cymraeg yn helpu'r plant i ddatblygu eu medrau rhifedd, megis "Un, dau, tri banana."

Mae pob plentyn yn chwarae gyda theganau digidol a llawer yn trin cyfrifiaduron llaw yn fedrus. Maen nhw'n symud eiconau sgrîn a siapiau yn bwrpasol ac yn gywir.

Mae medrau corfforol bron pob plentyn yn datblygu'n dda. Maen nhw'n symud mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gopïo symudiadau anifeiliaid gan gymryd rhan yn frwdfrydig. Mae medrau echddygol manwl y plant o dorri, gludo a phaentio wedi'u datblygu'n dda iawn.

Mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth dda o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru drwy ddathlu gwyliau fel Dydd Gŵyl Dewi. Mewn achosion o'r fath mae'r plant yn gwisgo'n briodol, yn blasu nwyddau Cymraeg ac yn dod i werthfawrogi symbolau Cymreig.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn mwynhau dod i'r lleoliad, yn ymgartrefu'n gyflym iawn ac yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae trefn y dydd wedi'u sefydlu'n dda ac mae'r plant yn gwybod beth sydd i'w ddisgwyl ganddynt ac maen nhw'n hapus i gydymffurfio. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos cymhelliant ac yn cymryd rhan lawn yn eu dysgu, yn enwedig mewn gweithgareddau ffocws dan arweiniad oedolion.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau uchel o hunan-barch ac mae ganddynt yr hyder i weithio'n annibynnol. Maen nhw'n ymateb yn frwdfrydig i gwestiynu gan oedolion ac yn mwynhau trafodaethau gydag oedolion. Mae holi a thrafod yn cael eu defnyddio'n dda i ddatblygu medrau meddwl y plant ac i wella eu meistrolaeth o'r iaith Gymraeg. Mae bron pob plentyn yn dangos agweddau da tuag at ddysgu. Mae'r holl blant yn ymddwyn yn dda iawn, maen nhw'n gwrtais ac yn ystyriol, fel yn ystod amser byrbryd. Maen nhw'n dangos goddefgarwch a pharodrwydd i rannu. Mae bron pob plentyn yn deall pwysigrwydd glendid a bwyta ac yfed yn iach.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r profiadau dysgu o safon uchel ac yn cyfateb yn dda i oedran a gallu'r plant. Mae'r cynllunio'n fanwl ac yn darparu lefelau addas o her i bob plentyn ac yn llwyddo i ennyn diddordeb yr holl blant. Mae'r cynllunio'n cael ei wneud ar y cyd ac mae'n seiliedig ar ddiddordebau'r plant ac yn ddigon hyblyg i ymateb i ddigwyddiadau lleol. Mae'r gweithgareddau yn rhoi sylw gwerth chweil i bob maes dysgu ac yn cyfeirio'n dda at blant yn gwneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar gyflawniad blaenorol y plant, yn enwedig datblygiad eu medrau, ac mae'r ymarferwyr yn hynod effeithiol wrth ddefnyddio pob cyfle i ymestyn medrau meddwl a datrys problemau'r plant.

Mae'r cynllunio'n darparu'r plant â chyfleoedd hynod effeithiol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, mae'r plant yn dysgu adnabod eu henwau trwy hunan-gofrestru. Yn ystod yr arolygiad, roedd y cyfleoedd dysgu yn rhoi cyfleoedd llawn dychymyg i blant chwilio am lythrennau penodol o'r wyddor yn eu llyfrau stori, yn seiliedig ar lythyren yr wythnos. Mae'r cynllunio hefyd yn cynnig cwricwlwm cyfannol i'r plant ac yn annog agwedd greadigol iawn at ddysgu.

Mae cyfleoedd cyson yn cael eu cynllunio ar gyfer y plant i gymryd rhan mewn canu caneuon a rhigymau Cymraeg i ddatblygu eu medrau iaith a rhifedd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd a defnyddiol i ddatblygu eu medrau TGCh. Mae'r cyfleoedd dysgu sy'n cael eu cynllunio'n darparu gweithgareddau gwerth chweil pan y gall plant weithio gyda'i gilydd yn gydweithredol a ffurfio perthynas dda a goddefgarwch.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg y plant yn effeithiol iawn. Mae’r ddau ymarferydd yn siaradwyr Cymraeg rhugl a Chymraeg yw iaith y lleoliad. Ar y cyfan, mae’r plant yn siaradwyr Cymraeg medrus ac mae hyn yn ganlyniad i’r cynllunio effeithlon i ddatblygu eu medrau. Mae’r cynllunio hefyd yn darparu cyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi er enghraifft. Mae’r plant yn dysgu am ddillad a bwydydd traddodiadol Cymreig. Mae ymwelwyr ac ymweliadau wedi’u cynllunio’n dda i blant ddysgu am eu hardal leol a’r byd y maen nhw’n byw ynddo.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd y berthynas rhwng ymarferwyr a’r holl blant yn arbennig o dda ac yn seiliedig ar gyd-hoffter.

Mae gan y ddau ymarferydd ddisgwyliadau uchel o blant ac mae’r disgwyliadau hyn yn cael eu gwireddu i raddau helaeth iawn yn ymarferol. Mae’r plant yn ymddwyn yn dda iawn ac yn ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i awgrymiadau a chyfarwyddiadau. Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn sensitif i’w hanghenion.

Mae’r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau diddorol i blant sy’n canolbwyntio’n dda ar eu hoed a’u gallu. Mae hyn yn eu helpu i gyflawni’n dda ac i wneud cynnydd cyson dda. Mae’r sesiynau’n symud ymlaen ar gyflymder cyson priodol sy’n cynnal cymhelliant da’r plant yn effeithiol. Mae cydbwysedd da rhwng chwarae rhydd sy’n cael ei ddewis gan y plentyn a gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan oedolion. Mae’r ymarferwyr yn defnyddio cwestiynau treiddgar sydd wedi’u cynllunio’n dda i ganfod dealltwriaeth y plant ac i ddatblygu eu sgiliau meddwl. Mae’r ymarferwyr yn gwybod pryd i roi cymorth i blant.

Mae’r ymarferwyr yn defnyddio canmoliaeth yn effeithiol, ond nid yn ormodol; maen nhw’n fodelau rôl iaith canmoladwy ac mae’r plant yn datblygu sgiliau iaith da iawn yn llwyddiannus.

Mae trefniadau effeithiol iawn yn eu lle i asesu cyflawniadau plant ac i dracio’u cynnydd.

Mae’r ymarferwyr yn arsylwi plant yn ystod eu gweithgareddau yn enwedig wrth ymwneud â thasgau ffocws gan gofnodi eu cyflawniadau. Mae hyn yn caniatáu i’r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant gael eu cynllunio’n effeithiol a sicrhau bod tasgau yn y dyfodol yn cyfateb yn dda i anghenion y plant. Mae’r gwaith yn cael ei wahaniaethu’n addas ac yn darparu’r plant â gweithgareddau heriol. Mae’r medrau, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, yn cael eu datblygu’n systematig ar draws yr holl feysydd cwricwlaidd. Mae hon yn ffordd hynod effeithiol o symud dysgu’r plant yn ei flaen i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r staff yn darparu rhieni â manylion am gynnydd eu plant ond nid ydynt yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd ynghylch sut y gallant helpu eu plant i wella. Mae manylion cyflawniadau'r plant yn cael eu rhoi i'r ysgol gynradd y mae'r plant yn trosglwyddo iddi.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch plant. Mae yna awyrgylch hynod o gynnes a chroesawgar lle mae'r staff yn creu amgylchedd gartrefol a chefnogol. Mae cyfleoedd effeithiol iawn yn cael eu darparu i blant fyfyrio a thrafod eu teimladau, i fod yn oddefgar ac i barchu ei gilydd. Mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi fel unigolyn.

Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae profiadau fel dathliadau a gweddïau Nadolig ar ddiwedd y sesiwn, yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol y plant.

Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda iawn ac maen nhw'n gwerthfawrogi pwysigrwydd gwerthoedd fel gonestrwydd a thegwch. Mae gan blant ddealltwriaeth glir o'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gywir ac anghywir.

Mae'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn effeithiol iawn wrth ddatblygu fframwaith sy'n sefydlu datblygiad cymdeithasol y plant. Mae rheolau syml o ymddygiad yn cael eu sefydlu a'u derbyn yn dda, gan arwain at amgylchedd dysgu cytûn. Mae'r plant yn dysgu i rannu, i gymryd cyfrifoldeb ac i gyfrannu at wneud penderfyniadau. Mae barn y plant yn cael eu hymgorffori'n fedrus wrth gynllunio'r cwricwlwm. Mae'r plant yn chwarae rhan weithredol mewn gweithgareddau cymunedol lleol.

Mae'r staff yn llwyddo i gyfleu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach i'r plant. Y plant sy'n cael y cyfrifoldeb am weini bwydydd ac ar y cyfan, mae amser byrbryd yn gyfle cymdeithasol effeithiol i blant sgwrsio a chymryd cyfrifoldebau. Mae'r lleoliad yn llwyddo i bwysleisio pwysigrwydd glendid i'r plant.

Mae dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn datblygu'n briodol. Mae'r plant yn ailgylchu bwydydd gwastraff ac yn casglu papur gwastraff ar wahân.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu plant. Mae'r ddau aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant priodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Nid oes unrhyw blant yn bresennol sydd wedi'u nodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn arddangos ethos cynnes a gofalgar lle mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod ble i gael help os oes angen. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn dangos graddfa ddymunol o anwyldeb ar gyfer pob plentyn.

Mae gan y staff gymwysterau da; mae’r arweinydd yn athrawes gymwysedig o blant ifanc ac mae gan y staff ddigon o brofiad. Maen nhw’n darparu’r plant â phrofiadau diddorol ac ysgogol sy’n dal sylw’r plant yn llwyddiannus.

Mae’r ystafell ddysgu wedi’i gwahaniaethu’n dda i ardaloedd dysgu – mae’r adnoddau yn dda ac mae safon uchel o waith plant yn cael ei arddangos. Mae hyn yn darparu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol ar gyfer y plant.

Mae’r lleoliad hefyd yn ffodus i gael defnydd rheolaidd a dyddiol o neuadd fawr gyfagos i’r brif ystafell. Mae hyn yn darparu man delfrydol ar gyfer chwarae corfforol, fel defnyddio beiciau tair olwyn, ac mae hefyd yn darparu ar gyfer gweithgareddau fel "cyffwrdd yr enfys" - gweithgareddau chwarae synhwyraidd a Jambori sy’n helpu datblygiad rhifedd y plant.

Mae’r lleoliad yn y broses o drafod ar gyfer man chwarae diogel y tu allan, ond, hyd yn hyn, nid yw hyn ar gael. Fodd bynnag, mae’r plant yn cael amrywiaeth eang o ymweliadau addas fel ymweld â gerddi, parciau a glan y môr sy’n eu helpu i ddysgu am y byd y tu allan. Mae ymwelwyr o’r gymuned, fel yr heddlu lleol yn ddefnyddiol wrth ddatblygu gwybodaeth y plant o’u cymuned.

Mae’r lleoliad yn ddiogel, mae’r drysau yn cael eu cadw ar glo a does neb yn medru dod i mewn neu adael yn ddi-rybudd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad sy’n hyrwyddo a chynnal gwelliant. Mae’r dysgu a’r addysgu yn cael eu rheoli’n dda iawn ac mae disgwyliadau o’r plant yn uchel. Mae’r lleoliad yn effeithiol iawn o ran datblygu’r plant i’w potensial llawn, yn enwedig eu gallu yn yr iaith Gymraeg.

Mae’r ymarferwyr yn gweithio’n effeithiol iawn fel tîm ac yn ategu ei gilydd yn fedrus. Maen nhw’n ymateb yn ddychmygus i gyngor a chyfarwyddyd sy’n cael eu darparu gan athrawes gefnogol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin. O ganlyniad, a thrwy gynllunio manwl, maen nhw’n darparu’r plant â phrofiadau ysgogol.

Mae cadeirydd y pwyllgor rheoli yn ymwelydd rheolaidd ac yn adnabod y lleoliad yn dda. Mae hi a’i chydweithwyr ar y pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn o’r lleoliad ac yn rhoi adborth defnyddiol yn dilyn eu hymweliadau. Mae’r pwyllgor rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan arweinydd y lleoliad.

Mae’r cadeirydd yn ymwneud â rheoli perfformiad unigol. Mae rheoli perfformiad yn arwain at hyfforddiant penodol ac yn galluogi’r staff i ymestyn eu harbenigedd proffesiynol gyda’r effaith gadarnhaol ar gyflawniadau’r plant o ganlyniad i hyn.

Mae’r arweinydd yn sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol yn eu lle ac mae’r lleoliad yn wyliadwrus wrth weithredu mentrau cenedlaethol a lleol.

Nodwedd dda a nodedig o’r lleoliad yw’r berthynas hynod effeithiol sydd wedi’i sefydlu gyda rhieni’r plant sy’n mynychu’r lleoliad.  Mewn trafodaeth, mae’r rhieni yn gwerthfawrogi’r gofal a’r gefnogaeth mae’r plant yn eu derbyn a hefyd agosatrwydd y staff.  Mae hyn yn cyfrannu’n sylweddol at les eu plant a’r safonau maen nhw’n eu cyflawni.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae’r ymarferwyr yn gweithio’n agos gyda’i gilydd, gan rannu syniadau a dod o hyd i ffyrdd i wella’r ddarpariaeth o ddydd i ddydd.  Mae trafodaethau yn arwain at newidiadau rheolaidd i’r ddarpariaeth sy’n cael effaith fuddiol ar safonau a lles y plant. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr wedi nodi bod y plant heb gael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau TGCh.  Yn unol â hynny, prynwyd cyfrifiaduron llaw sydd wedi arwain at welliant mewn gallu’r plant i ddefnyddio’r dechnoleg.

Mae’r arweinydd wedi cynnal gwerthusiad cywir a manwl o waith y lleoliad ac wedi cofnodi hyn yn glir ac yn gryno yn yr adroddiad hunanarfarnu.  Mae’r cynllun gweithredu wedi’i seilio ar ganlyniadau’r hunanwerthuso a wnaed ac wedi’i osod yn glir yn nhermau graddfa amser, cyfrifoldebau am ei weithredu a’r meini prawf llwyddiant.  Nodwedd nodedig a da o’r cynllun gweithredu yw ei fod yn cynnwys ffocws da ar wella canlyniadau i blant.

Mae’r arweinydd wedi cymryd i ystyriaeth adborth gan blant, rhieni a staff ymgynghorol wrth nodi cryfderau a meysydd i’w datblygu.

Mae’r staff wedi gwneud defnydd da o gyrsiau datblygiad proffesiynol sy’n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol, ac mae hyn yn gwella darpariaeth ar gyfer cyflawniad a lles plant.  Mae’r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac mae mentrau o’r fath, fel y newidiadau i gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, yn cael eu gweithredu a’u sefydlu yn y cwricwlwm.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae’r lleoliad wedi sefydlu partneriaethau effeithiol sy’n gwella ansawdd y ddarpariaeth a’r canlyniadau ar gyfer y plant yn llwyddiannus.

Mae perthynas gwerth chweil a buddiol gyda’r rhieni.  Maen nhw’n gefnogol iawn ac yn cyfrannu tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella’r ddarpariaeth.  Mae’r holl rieni a gofalwyr, mewn trafodaeth ac yn yr atebion i’r holiaduron, yn mynegi eu bodlonrwydd gyda’r lleoliad.  Maen nhw’n gwerthfawrogi agosatrwydd y staff a’r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud o ran eu datblygiad cymdeithasol a datblygiad iaith.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau gwerthfawr gyda Ysgol Gynradd Penygroes. Dros y blynyddoedd mae hyn wedi bod yn bartneriaeth hynod fuddiol ac yn golygu bod trosglwyddiad esmwyth o blant o'r lleoliad. Mae'r plant, trwy ymweliadau, yn dod i adnabod yr athrawon perthnasol yn yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn derbyn adroddiadau ar safonau cyflawniad y plant a gwybodaeth ymlaen llaw am unrhyw bryderon.

Mae'r lleoliad wedi elwa'n sylweddol o'r cyngor a'r awgrymiadau sy'n cael eu darparu gan staff cymorth yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae gan y lleoliad gysylltiadau da gyda'r gwasanaethau cefnogi sy'n cael eu cysylltu yn ôl yr angen.

Mae partneriaethau cymunedol, fel gyda'r heddlu, yn darparu'r plant â mewnwelediad gwerthfawr a dealltwriaeth o bobl sydd yn eu helpu yn y gymuned. Mae ymweliadau â'r ardal leol a thu hwnt yn ymestyn profiadau a gwybodaeth y plant am y byd o'u cwmpas.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol gyda staff cymwys a phrofiadol. Mae'r arweinydd yn athrawes gymwysedig ac mae ei phrofiad a'i hyfforddiant proffesiynol yn cael effaith arwyddocaol iawn ar y cyfleoedd dysgu sy'n cael eu cynllunio ac o ganlyniad ar safonau cyflawniad y plant.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda iawn fel tîm ac yn defnyddio eu harbenigedd unigol yn dda iawn ac yn effeithiol wrth gyflawni meysydd o'r cwricwlwm, fel adrodd straeon.

Mae'r ymarferwyr yn cael mynediad at hyfforddiant priodol sy'n sicrhau bod eu gwybodaeth yn gyfredol a'u bod yn ymwybodol o ddatblygiadau cyfredol yn natblygiad y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r arweinydd wedi datblygu perthynas waith dda gyda Phwyllgor y Neuadd Goffa ac mae hyn yn fuddiol gan ganiatáu'r defnydd o'r neuadd fawr.

Mae gan yr arweinydd a'r rheolwyr ddealltwriaeth briodol o'u cyllid ac mae blaenoriaethau'r gwariant yn canolbwyntio ar amcanion addysgol clir.

O ystyried y safonau uchel a gyflawnir gan y plant, eu lles a'r cyfleoedd dysgu symbylol sy'n cael eu darparu ar gyfer y plant, barnwyd bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 14 | 11 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 14 | 11 | 1 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 79% | 7% | 14% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 14 | 12 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth I ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 14 | 11 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 14 | 10 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 14 | 11 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 14 | 12 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 12 | 9 | 3 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corf yn rheolaidd. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 14 | 12 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |

Adroddiad ar Cylch Meithrin Penygroes
Rhagfyr 2015

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 14 | 9<br>64% | 2<br>14% | 2<br>14% | 1<br>7% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 6% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 14 | 10<br>71% | 4<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 13 | 8<br>62% | 5<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 66% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 12 | 10<br>83% | 2<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 14 | 7<br>50% | 5<br>36% | 2<br>14% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 64% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 14 | 10<br>71% | 4<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | **Arolygydd Cofnodol** |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliadac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |